# DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: Uwch Swyddog Cynllunio (Rheoli Datblygiadau)
Gradd:10, Pwyntiau 29-32 ar y Golofn Gyflog (£35,411-£38,296)
Yn Gyfrifol i'r: Prif Swyddog Cynllunio (Rheoli Datblygiadau)

Pwrpas y Swydd:

•Ymdrin â phob agwedd ar reoli gwaith achos sy'n ymwneud â datblygu cynlluniau o fewn ac ar gyrion y Parc Cenedlaethol.
•Cynorthwyo'r Prif Swyddogion Cynllunio i reoli'r dasg o ddatblygu cynlluniau er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio o safon a chynnal lefelau uchel o berfformiad.
•Cynorthwyo i sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaethau, polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'r Llywodraeth ac yn cyd-fynd â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.
•Cynorthwyo i sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio yn effeithlon, yn effeithiol, yn ymatebol, yn deg, yn gynhwysol ac yn agored i archwiliad.



## CWCH SWYDDOG CYNLLUNIO

# PRIF DDYLETSWYDDAU

1.Prosesu gwaith achos sy'n ymwneud â Rheoli Datblygiadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig
i, ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig cymhleth a mawr, ceisiadau am ganiatâd hysbysebu,
ceisiadau am ganiatâd o fewn ardaloedd cadwraeth, ceisiadau am ganiatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, a materion yn ymwneud â gorfodi cynllunio.
2.Ymgymryd ag archwiliadau safle, ynghyd â dyletswyddau goruchwylio a chyfarwyddo mewn perthynas ag ymgynghoriadau, a pharatoi adroddiadau ac argymhellion. Cyflwyno ceisiadau annirprwyedig a materion eraill sy'n ymwneud â rheoli datblygiadau i'r Pwyllgor Cynllunio.
3.Trefnu bod cymheiriaid yn adolygu adroddiadau ar benderfyniadau dirprwyedig a hysbysiadau tramgwyddau cynllunio, ar ran y Prif Swyddogion Cynllunio a'r Pennaeth Rheoli Datblygiadau yn unol
â'r Cynllun Dirprwyo.
4.Lle bo'n briodol, ymgymryd â phroses sgrinio AEA a darparu barn ynghylch y sgrinio a'r cwmpasu
ffurfiol ar ran yr Awdurdod.
5.Negodi gydag asiantau, datblygwyr, ymgyngoreion mewnol a chyrff statudol mewn perthynas â'r
holl waith sy'n ymwneud â chynllunio, gan gynnwys paratoi cynlluniau datblygu, ceisiadau cynllunio,
ymholiadau cyn ymgeisio, y dasg o negodi Cytundebau Adran 106, a darparu cyngor ar ddylunio a
datblygiadau cynaliadwy.
6.Delio ag ymholiadau rhagarweiniol a ffurfiol cyn gwneud cais i ymgymryd â datblygiadau o fewn y
Parc Cenedlaethol a datblygiadau mawr ar gyrion y Parc Cenedlaethol.
7.Ymgymryd â phob math o Apelau Cynllunio ac Archwiliadau Cyhoeddus, gan gynnwys cynhyrchu
datganiadau a phrawf o dystiolaeth, ymddangos fel tyst arbenigol ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a chefnogi aelodau'r Tîm Cynllunio trwy wrandawiadau apêl, archwiliadau ac ymholiadau.
8.Hyfforddi a mentora Swyddogion Cynllunio a Thechnegwyr. Cynnal eu Hadolygiadau Rheoli Perfformiad a chynorthwyo eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel y bo'n briodol.
9.Ymateb ar ran yr Awdurdod i ymholiadau'r Ombwdsmon ac i gwynion ffurfiol am y Gwasanaeth Cynllunio yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod ac o dan gyfarwyddyd y Pennaeth Rheoli Datblygiadau.
10.Darparu cyngor ynghylch y dasg o reoli datblygiadau ar gyfer adrannau eraill yr Awdurdod.
11.Ymateb i ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â rheoli datblygiadau.
12.Mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned priodol a chyfarfodydd trefniadol eraill o dro i dro, weithiau y tu allan i oriau swyddfa arferol, er mwyn trafod materion yn ymwneud â rheoli datblygiadau.
13.Unrhyw ddyletswydd arall, sy'n briodol i radd a natur y swydd, fel sy'n ofynnol gan y Pennaeth Rheoli Datblygiadau.

# MANYLEB PERSON

Meini Prawf Hanfodol
Cymhwyster cydnabyddedig, gradd neu gyfwerth mewn Cynllunio Gwlad a Thref neu
ddisgyblaeth gysylltiedig.
O leiaf 5 mlynedd o brofiad perthnasol mewn Rheoli Datblygiadau yn y sector cyhoeddus neu breifat.
Gwybodaeth dda o bolisi cynllunio, deddfwriaeth a gweithdrefnau cysylltiedig.
Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun a threfnu llwyth gwaith yn effeithiol.
Y gallu i weithio dan bwysau.
Sgiliau da o ran cyfathrebu, ymwneud â phobl ac ysgrifennu adroddiadau gan gynnwys
darllen proflenni.
Y gallu i drefnu cyfarfodydd a delio â'r gwaith dilynol priodol.
Y gallu i ymchwilio, dehongli a dadansoddi amrywiaeth o ddata cymhleth.
Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac i fentora a chefnogi cydweithwyr fel cyfeirbwynt ar
faterion sy'n ymwneud â chynllunio.
Y gallu i fentora a hyfforddi aelodau iau o staff.
Y gallu i ddelio'n gwrtais â phobl ar y ffôn ac ymdrin yn ddiplomyddol â'r cyhoedd yn
ogystal ag Aelodau a Staff y Parc Cenedlaethol.
Trwydded yrru gyfredol.
Lefel 0 Sgiliau Iaith Gymraeg

Meini Prawf Dymunol
Aelodaeth o'r RTPI.
Gwybodaeth am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i ddibenion a'i ddyletswyddau statudol.
Bod yn gyfarwydd ag Arfarniadau o Gynaladwyedd.
Lefel 1 Sgiliau Iaith Gymraeg
Gofynion yr Iaith Gymraeg
Sylwer: Os nad yw aelodau staff yn bodloni Gofynion yr Iaith Gymraeg fel y'u nodwyd uchod, yna bydd
yr Awdurdod yn cynnig amrywiaeth o opsiynau dysgu a chefnogaeth iddynt er mwyn eu helpu i
fodloni'r gofynion hynny yn ystod eu cyflogaeth gyda ni.

